

Rhif: WG13037



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Gwella Proses Apeliadau Cynllunio

Dyddiad cyhoeddi: **17 Awst 2011**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **17 Tachwedd 2011**

## Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau amrywiol i'r system apeliadau cynllunio yng Nghymru. Diben y newidiadau yw gwneud y broses apelio'n fwy cymesur, yn fwy cost effeithiol ac yn fwy ymatebol i anghenion cwsmeriaid.

Gofynnir am farn ar y prif newidiadau canlynol:

- cyflwyno system apelio symlach a chyflymach i ddeiliaid tai
- penderfynu ar ddull apelio pob achos ar sail meini prawf dangosol sydd wedi'u cyhoeddi
- ehangu'r gyfundrefn gostau i apeliadau cynllunio lle ceir sylwadau ysgrifenedig
- cyflwyno gweithdrefn syml ar gyfer cywiro camgymeriadau mewn penderfyniadau apelio
- newid y trefniadau cyfredol ar gyfer talu ffioedd cais gorfodi
- mynnu bod Datganiadau Tir Cyffredin yn cael eu cyflwyno'n gynt yn y broses apelio
- cyflwyno proses a chanllawiau ffurfiol ar gyfer llunio amserlenni pwrpasol i ymholiadau cymhleth

Wrth benderfynu ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig hyn, ystyriwyd y newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith eisoes yn Lloegr mewn rhai o'r meysydd hyn, y gellir pwysu a mesur eu heffaith. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw newidiadau a allai gael eu cyflwyno gennym fod yn iawn i Gymru. Felly, rydym am glywed eich barn ar y newidiadau posibl hyn cyn gwneud penderfyniad ar y materion hyn.

## Sut i ymateb

17 Tachwedd 2011 yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. Gallwch ymateb fel a ganlyn:

### E-bost

Cwblhewch y ffurflen ymgynghori (Atodiad A) a'i hanfon i: [Planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk)  
[Rhowch 'Ymgynghoriad ar Apeliadau' yn llinell pwnc y neges]

### Post

Cwblhewch y ffurflen ymgynghori (Atodiad A) a'i hanfon i'r cyfeiriad isod.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael o'r ddogfen hon ar gais.

## Manylion Cyswllt

Ymgynghoriad ar Apeliadau Cynllunio  
Is-adran Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**E-bost:** [Planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk)

**Ffôn:** 02920823879

## Manylion Cyswllt Diogelu Data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof.

Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r data yn achos yr holl ddata personol sy'n ymwneud â'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Beth yw testun yr ymgynghoriad?

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'r broses apeliodau cynllunio, fel rhan o ymgyrch ehangach i sicrhau bod y broses o reoli gwaith datblygu yn ymateb yn well i anghenion defnyddwyr. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno cynigion fel a ganlyn:
  - Cyflwyno system cynllun llwybr carlam ar gyfer apeliodau deiliaid tai
  - Galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i bennu'r dull apelio ar gyfer pob achos ar ran Gweinidogion Cymru, ar sail meini prawf dangosol sydd wedi'u cyhoeddi a'u cymeradwyo gan Weinidogion
  - Ymestyn y gyfundrefn gostau i apeliodau cynllunio lle ceir sylwadau ysgrifenedig
  - Symleiddio'r drefn o gywiro camgymeriad(au) mewn penderfyniadau ynglŷn ag apeliodau
  - Trosglwyddo awdurdod i arolygwyr bennu apeliodau sy'n ymwneud â hen ganiatadau mwynau
  - Newid y trefniadau cyfredol ar gyfer talu ffioedd ceisiadau gorfodi wrth gyflwyno apeliodau gorfodi er mwyn sicrhau bod y ffi gyfan yn cael ei thalu i'r awdurdod cynllunio lleol
  - Mynnu bod Datganiadau Tir Cyffredin yn cael eu cyflwyno'n gynt yn y broses apelio
  - Cyflwyno proses a chanllawiau ffurfiol ar gyfer llunio amserlenni pwrpasol i ymholiadau cymhleth
2. Mae'r cynigion hyn yn deillio'n bennaf o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008.

## Pam mae angen y newidiadau?

3. Mae'r broses apelio yn rhan ganolog o'r system gynllunio. Mae ganddi rôl bwysig yn sicrhau bod amcanion Llywodraeth Cymru i ddatblygu yn ôl yr angen a meithrin mannau atyniadol, cynaliadwy lle mae pobl am fyw ynddynt yn cael eu cyflawni. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweinyddu'r system apelio yng Nghymru a Lloegr ac mae'n asiantaeth weithredol a gyllidir yn gyhoeddus ar y cyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'i rôl, mae'n gweinyddu'r system apelio yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniant cyfredol yn golygu bod modd i'r cyhoedd gymryd rhan a bod penderfyniadau o safon uchel yn cael eu gwneud ar sail yr egwyddorion o ddiwylledd, tegwch a bod yn ddiduedd.
4. Cydnabyddir yn eang bod y system apelio bresennol yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae arolygon yn dangos yn gyson bod y mwyafrif o apelyddion yn fodlon â'r ffordd yr ymdrinnir â'u hapeliadau. Dangosodd arolwg boddhad cwsmeriaid yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer 2009 bod 74% o ymatebwyr yn fodlon â'r ffordd yr oedd y system apelio yn cael ei gweithredu; cafwyd ffigur tebyg yn 2008. Yn 2010-11, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gynllunio 1,026 o benderfyniadau yng Nghymru. O'r rhain, nid oedd 99.22% yn cynnwys unrhyw

gamgymeriad sylweddol a oedd yn berthnasol i gadernid y penderfyniad.

5. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn parhau i graffu ar y system apelio er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'n bwysig delio â phob apêl drwy'r broses fwyaf priodol o ystyried amgylchiadau'r apêl honno. Gall newidiadau i'r system ei chynorthwyo i ddarparu gwell gwasanaeth i'r rhai sy'n ei defnyddio, drwy symleiddio prosesau lle mae cyfle i wneud hynny. Gall hyn arwain at arbedion o ran costau ac amser i bawb dan sylw a helpu i sicrhau bod y drefn o apelio yn diwallu anghenion apeliadau o wahanol lefelau o gymhlethdod.

### Apeliadau llwybr carlam i ddeiliaid tai

6. Roedd tua 27% o'r 900 o apeliadau cynllunio a benderfynwyd yng Nghymru yn 2009-10 yn ymwneud â chynigion graddfa fach ar gyfer "datblygiadau deiliaid tai"<sup>1</sup>. Cyflwynir y mwyafrif o apeliadau deiliaid tai (tua 90%) drwy sylwadau ysgrifenedig a dyma brofiad cyntaf, ac unig brofiad o bosibl, y mwyafrif o apelyddion o apêl cynllunio. Dyma'r achosion lleiaf cymhleth ac nid ydynt yn arwain at gwestiynau ehangach o ran polisi fel arfer. Ond maent yn cael eu prosesu o dan yr un rheolau, amserlenni a gweithdrefnau â chynlluniau mwy a allai fod yn fwy dadleuol o bosibl. Credwn fod hyn yn anghymesur o ran ei effaith ar apelyddion a phawb sy'n rhan o'r broses apelio. Byddai proses sy'n caniatáu i apelyddion gyflwyno apeliadau ysgrifenedig yn gyflym, a fyddai'n cynnwys adolygiad cyflym ac annibynnol o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol, o fudd i ddeiliaid tai drwy symleiddio a chyflymu eu hapeliadau. Byddai'n golygu llai o amser, llai o waith a llai o gost i bawb wrth brosesu'r apeliadau hyn ac yn sicrhau bod materion yn cael eu hystyried yn llawn ac yn deg, yn bennaf drwy sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen gan bartion i wneud penderfyniadau gwybodus yn cael eu darparu ar ddechrau'r broses.
7. Mae'r Arolygiaeth eisoes wedi datblygu a gweithredu system llwybr carlam ar gyfer apeliadau deiliaid tai yn Lloegr, sydd ar waith ers mis Ebrill 2009. Yn y bôn, dyma'r prif nodweddion:
  - mae'n rhaid cyflwyno apeliadau o fewn 13 wythnos i benderfyniad, yn hytrach na 26 wythnos
  - mae'n seiliedig ar waith electronig cyn belled â bod hynny'n bosibl
  - cyflwyno datganiad llawn o sail yr apêl wrth gyflwyno'r apêl am y tro cyntaf, nid 6 wythnos yn ddiweddarach

---

<sup>1</sup> Mae datblygiadau deiliaid tai yn golygu'r rhai hynny sydd o fewn cwrtel eiddo preswyl y mae'n rhaid gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer ac nad ydynt yn cynnwys newid defnydd. Mae'r canlynol wedi'u **cynnwys** mewn datblygiadau deiliaid tai: estyniadau, newidiadau, garejis, pyllau nofio ac adeiladau achlysurol eraill, waliau, ffensys, mynediad i gerbydau, cynteddau a soseri lloeren. Mae'r canlynol wedi'u **heithrio** o ddatblygiadau deiliaid tai: ceisiadau i newid nifer yr anheddau mewn adeilad presennol, apeliadau yn erbyn achosion o fethu penderfynu ac apeliadau yn erbyn caniatâd a roddwyd yn destun amodau.

- yr awdurdod cynllunio lleol sy'n cyflenwi'r holl wybodaeth sy'n sail i'w benderfyniad, gan gynnwys sylwadau partion â budd, gyda'r holiadur apêl
  - rhoi gwybod i'r partion â budd y bydd eu sylwadau gwreiddiol yn cael eu hystyried
  - bydd yr arolygydd yn ymweld â safleoedd ar ei ben ei hun, ac eithrio pam mae arolygydd angen i rywun fod yn bresennol i gael mynediad; mewn achosion "angen mynediad" o'r fath, bydd yr apelydd/cynrychiolydd ar gael yn y bore neu'r prynhawn at y diben hwn yn unig
  - yr amserlen darged ar gyfer penderfynu yw 8 wythnos yn hytrach na 16 wythnos
8. Yn Lloegr, mae'r broses newydd hon wedi peri bod dros 90% o apeliadau deiliaid tai wedi cael eu penderfynu o fewn 8 wythnos i'w gwneud. Nid oes unrhyw dystiolaeth yng ngwaith monitro'r Arolygiaeth Gynllunio o'r system newydd o unrhyw newid sylweddol yng nghyfran yr apeliadau a ganiateir neu a wrthodir yn sgil y drefn gynt. Roedd llai na 2% o'r achosion a gofnodwyd fel apeliadau deiliaid tai yn ystod y cyfnod hwn yn anaddas i'r broses newydd fel bod angen eu trosglwyddo i'r drefn heb ei symleiddio. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan rwydwaith ymarferwyr bach y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (sy'n cynrychioli apelyddion) a chan awdurdodau cynllunio lleol a fu'n mynychu seminarau rhanbarthol. Mae nifer yr heriau yn yr uchel lys hyd yma wedi bod yn isel iawn ac mae llai o gwynion am y broses. Mae'n ymddangos nad yw'r trefniadau newydd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer ymweliadau "angen mynediad" i safle, wedi tolco'r hyder bod penderfyniadau am apeliadau'n cael eu gwneud mewn dull teg, agored a diduedd.
9. Mae'r unig anfodlonrwydd sylweddol a fynegwyd yn deillio o'r rheidrwydd i apelydd, neu gynrychiolydd, fod ar gael gydol y cyfnod pedair awr ar gyfer ymweliadau sy'n gofyn am fynediad i safle ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Er bod trefniant o'r fath yn galluogi'r Arolygydd i weithio'n fwy effeithlon, rydym yn cydnabod y gall bod wrth law am bedair awr fod yn anodd. Felly, cynigiwn y dylid gostwng y cyfnod hwn i ddwy awr yng Nghymru.
10. Mae gwasanaeth apelio deiliaid tai peilot ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r prosiect peilot hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr un amrywiaeth o ddatblygiadau a ddiffinnir uchod fel datblygiadau deiliaid tai, gyda darpariaeth ragosodedig i'r Arolygiaeth drosglwyddo achosion i'r drefn sylwadau ysgrifenedig arferol os oes amgylchiadau eithriadol yn golygu bod angen gwneud hynny. Er mai dim ond 38 o achosion a bennwyd drwy'r broses deiliaid tai peilot yn 2010/11, mae'r canlyniadau cychwynnol yn galonogol iawn ac mae'r peilot yn parhau gyda phob awdurdod cynllunio lleol bron iawn yn cymryd rhan bellach. Mae'r 38 achos wedi'u penderfynu o fewn 8 wythnos o'u cyflwyno ac nid oes unrhyw gwynion wedi bod hyd yma. Bydd canlyniadau'r prosiect peilot yn llywio'r penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaeth

llwybr carlam i ddeiliaid tai, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

**C1 Ydych chi'n cytuno mewn egwyddor â chyflwyno gwasanaeth apelio llwybr carlam i ddeiliaid tai yng Nghymru? Os nad ydych chi, pam?**

**C2 Beth ydych chi'n credu yw'r manteision a'r anffanteision, o ran(i) apelyddion, (ii) awdurdodau cynllunio lleol a (iii) y gymuned ehangach, o gyflwyno gwasanaeth apelio llwybr carlam i ddeiliaid tai?**

**C3 Beth yw eich barn ar elfennau canlynol y gwasanaeth apelio i ddeiliaid tai sy'n gweithredu systemau tebyg i'r systemau cyfredol yn Lloegr? A oes unrhyw agweddau ar y system a allai fod yn anfoddfaol – ac os hynny, pam?**

- Mae gan ymgeiswyr 12 wythnos o ddyddiad y penderfyniad i gyflwyno apêl
- Targed o 8 wythnos ar gyfer penderfynu ar yr apêl
- Cynnal y drefn apelio yn electronig pryd bynnag y bo hynny'n bosibl
- Achos yr awdurdod cynllunio lleol i gynnwys dogfennaeth sy'n ymwneud â thrafod a phenderfynu'r cais a'i chyflwyno gyda holiadur apelio
- Achos yr apelydd i gynnwys datganiad ar y ffurflen apelio a gyflwynwyd yn egluro pam mae penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei herio
- Sylwadau preswylwyr cyfagos yn y cyfnod ymgeisio i gael eu cario drosodd i'r apêl – hysbysiad yn y cyfnod apêl ond i gadarnhau a oes gwrthwynebiadau o hyd
- Yr arolygydd i ymweld â'r safle ar ei ben ei hun ym mhob achos ac eithrio bod angen mynediad i'r safle
- Os oes angen darparu mynediad, mae'n rhaid rhoi rhybudd o'r ffenestr amser (rydym yn annog ffenestr o 2 awr, e.e. rhwng 10.00am a hanner dydd) pan fydd yr arolygydd yn galw
- Yr arolygydd i benderfynu a yw am weld y safle o eiddo cyfagos mewn ymateb i unrhyw gais i wneud hynny

**C4 Ydych chi'n cytuno gyda chwmpas y diffiniad o ddatblygiadau deiliaid tai a nodir yn nhroednodyn 1 uchod? A oes mathau o ddatblygiadau deiliaid tai y dylid eu heithrio yn eich barn chi, neu a ddylid cynnwys mathau eraill? Os hynny, pa fathau a pham?**

**C5 A oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas ag unrhyw agwedd arall ar wasanaeth llwybr carlam i ddeiliaid tai?**

### **Pennu'r dull apelio**

11. Defnyddir un o dri math o weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau cynllunio a cheisiadau sydd wedi'u galw i mewn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Y dull sylwadau ysgrifenedig yw'r broses symlaf a chyflymaf. Mae'r partïon dan sylw yn cyflwyno'u hachosion yn

ysgrifenedig, o fewn amserlen benodol, a phennir yr apêl ar sail ystyriaethau'r Arolygydd o'r deunydd a gyflwynwyd a'r arolygiad o'r safle a'i gyffiniau. Mae'r dull hwn yn briodol ar gyfer y mwyafrif o achosion, sy'n gymharol syml. Yn y weithdrefn gwrandawriad, yn ogystal ag ystyried deunydd ysgrifenedig ac arolygiad y safle, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bartïon yn cael ei harchwilio'n llafar drwy drafodaeth fanwl a arweinir gan yr Arolygydd. Mae'r dull gwrandawriad yn briodol pam mae angen craffu'n fanylach ar achosion priodol. Er bod angen mwy o adnoddau i'w weithredu, mae'r dull yn fan canol rhwng sylwadau ysgrifenedig ac ymchwiliad. Mae ymchwiliad yn weithdrefn fwy ffurfiol, ac fe'i defnyddir mewn achosion mwy cymhleth fel arfer, lle mae'r prif bartïon yn cael eu cynrychioli gan eiriolwyr a lle cyflwynir tystiolaeth tystion ar ffurf proflenni sy'n cael eu profi drwy groesholi. Y weithdrefn hon yw'r un fwyaf costus a'r un sy'n cymryd hiraf. Gallai gwrandawriad neu ymchwiliad hefyd fod yn briodol os bydd llawer o ddiddordeb neu fudd cyhoeddus.

12. Mae'r system apelio gyfredol yng Nghymru yn caniatáu i'r prif bartïon ddewis y dull apelio. Fodd bynnag, mae profiad yr Arolygiaeth yn dangos fod y dull gwrandawriad yn cael ei ddewis yn aml ar gyfer apelïadau syml y gellid eu penderfynu yr un mor hawdd drwy'r dull ysgrifenedig. Er enghraifft, cafodd bron i 60% o'r holl apelïadau a benderfynwyd yn 2009/10 eu categoreiddio fel mân ddatblygiadau, ond deliwyd â mwy na chwarter o'r rhain gan wrandawriadau neu ymchwiliadau. Mewn achosion eraill, dewisir ymchwiliadau ar gyfer apelïadau y gellid eu hystyried yr un fath mewn gwrandawriad. Mae pob math o resymau am hyn. Fodd bynnag, un o egwyddorion sylfaenol y system yw bod yr holl apelïadau'n cael eu trafod yn deg ac ar sail teilyngdod, pa bynnag broses apelio a ddefnyddir. Bydd y canlyniad yn dibynnu ar i ba raddau y bydd Gweinidogion Cymru neu'r arolygydd a benodwyd wedi'u hargyhoeddi gan y dadleuon cynllunio, nid y dull a ddefnyddiwyd i'w cyflwyno.
13. Credwn y dylai'r weithdrefn a ddefnyddir gyfateb i gymhlethdod yr achos. Mae'r egwyddor hon yn elfen bwysig o system apelïadau gymesur ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Credwn y gellir trafod achosion nad oes angen gwrandawriad llafar ar eu cyfer yn deg ac yn effeithiol drwy ystyried sylwadau ysgrifenedig heb golli ansawdd na thegwch y broses a'r penderfyniad. Yn yr un modd, gellir trafod achosion nad oes angen ymchwiliad ar eu cyfer, drwy gyflwyno tystiolaeth yn ffurfiol a chroesholi tystion, a hynny'n deg ac yn effeithiol drwy wrandawriad. Byddai pob apelydd yn derbyn gwasanaeth o'r un ansawdd, yn seiliedig ar natur a chymhlethdod eu hapêl ac i ba raddau y bydd angen archwilio a phrofi tystiolaeth yn fanwl.
14. Ers mis Ebrill 2009, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn Lloegr wedi gweithredu system statudol o ddyrannu apelïadau cynllunio a wnaed o dan Adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (apelïadau adran 78) ac apelïadau gorfodaeth a wnaed o dan Adran 174 Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (apelïadau gorfodaeth adran 174) i'r weithdrefn apelio fwyaf priodol. Yn y flwyddyn gyntaf, gwnaed newidiadau i'r weithdrefn a ddewiswyd gan yr apelyddion mewn 1,003

o achosion apelio adran 78 (tua 6% o'r cyfanswm), gan ddefnyddio meini prawf yr Arolygiaeth ar gyfer pennu'r dull apelio mwyaf priodol, gyda dros 90% o'r rhain yn newid i sylwadau ysgrifenedig. Dim ond 57 o achosion oedd yn ymwneud â newid i weithdrefn fwy cymhleth, ac roedd 43 o'r rhain yn newidiadau o sylwadau ysgrifenedig i wrandawriad. Os yw parti'n herio newid i'r weithdrefn a argymhellir gan yr Arolygiaeth, bydd cyfle i gyfiawnhau ymhellach y dull apelio a ddewiswyd. Heriwyd newidiadau i'r weithdrefn a argymhellwyd gan yr Arolygiaeth 165 o weithiau gan yr apelydd a 94 o weithiau gan yr awdurdod cynllunio lleol, gan arwain at beidio â gwneud newidiadau mewn 100 o achosion (tua 10% o'r achlysuron yr argymhellwyd newid yn y lle cyntaf).

15. Ar y cyfan, o ystyried y profiad hwn, credwn y bydd galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i bennu'r weithdrefn briodol ar gyfer apeliodau cynllunio adran 78 yng Nghymru a cheisadau sy'n cael eu galw i mewn gan Weinidogion Cymru o dan adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar sail meini prawf a sefydlwyd, yn helpu i sicrhau bod y broses apelio yn gymesur â natur pob apêl gan sicrhau effeithlonrwydd gweithredol sylweddol ac arbedion o ran costau ac adnoddau i bawb.
16. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu meini prawf anffurfiol yng Nghymru ar gyfer trosi achosion cynllunio i'r dull apelio y tybiant sy'n fwyaf addas, lle nad yw'r apelydd yn mynnu gwrandawriad llafar. Dangosir y meini prawf cyfredol isod. Maent wedi'u llunio i sicrhau bod unrhyw achos cymhleth, dadleuol neu achos a fyddai'n elwa ar y craffu a gynigir gan wrandawriad neu ymchwiliad yn cael eu trafod yn y ffordd hon.

### **Meini prawf dangosol arfaethedig i bennu a yw apêl yn addas i'w benderfynu yn dilyn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad.**

#### **Sylwadau ysgrifenedig**

Os yw eich apêl yn bodloni'r meini prawf canlynol, y weithdrefn fwyaf priodol fyddai sylwadau ysgrifenedig:-

1. gellir deall sail yr apêl a materion a godwyd yn glir o ddogfennau'r apêl a'r arolygiad o'r safle; a/neu
2. ni ddylai fod angen i'r Arolygydd brofi'r dystiolaeth drwy gwestiynu nac egluro unrhyw faterion eraill; a/neu
3. nid oes angen asesiad o'r effaith amgylcheddol neu nid yw'r asesiad o'r effaith amgylcheddol yn destun dadl.

#### **Gwrandawriad**

Os nad yw'r meini prawf ar gyfer sylwadau ysgrifenedig yn cael eu bodloni oherwydd bod angen gofyn cwestiynau, er enghraifft :-

- mae statws yr apelydd yn fater i'w ystyried, e.e. Sipsi/Teithiwr;
- mae'r angen am y cynnig yn fater i'w ystyried, e.e. annedd gweithiwr amaethyddol; safle Sipsiwn/Teithwyr;
- mae amgylchiadau personol yr apelydd yn faterion i'w hystyried, e.e. pobl ag anableddau neu anghenion arbennig eraill;

gwrandawriad fyddai'r weithdrefn briodol pe bai'r canlynol yn wir:-

1. dim angen profi'r dystiolaeth gan groesholi ffurfiol; a
2. mae'r pynciau trafod yn syml (ac nid oes angen cyflwyniadau cyfreithiol neu gyflwyniadau eraill ar eu cyfer) a dylech allu cyflwyno'ch achos eich hun (er y gallwch ddewis cael eich



cynrychioli os mai dyna'ch dymuniad); a

3. mae'ch achos ac achos eich Awdurdod Cynllunio Lleol a phobl sydd â budd yn annhebygol o gymryd mwy na diwrnod i'w clywed.

### **Ymchwiliad**

Os nad yw'r meini prawf ar gyfer sylwadau ysgrifenedig a gwrandawiadau yn cael eu bodloni oherwydd bod angen profi'r dystiolaeth a/neu fod angen gofyn cwestiynau, fel y gwelir uchod, y weithdrefn fwyaf priodol fyddai ymchwiliad lleol:-

1. os yw'r materion yn gymhleth a'i bod yn debygol y byddai angen tystiolaeth gan dyst arbenigol; a/neu  
2. os ydych yn debygol o fod angen eiriolwr i'ch cynrychioli, er enghraifft, cyfreithiwr neu arbenigwr proffesiynol arall oherwydd bod ffeithiau materol a/neu faterion o farn arbenigol yn destun dadl a bod angen croesholi tystion yn ffurfiol; a/neu

3. os oes angen gwneud cyflwyniadau cyfreithiol.

NODER: Os yw'r cynigion yn ddadleuol ac wedi ennyn diddordeb lleol sylweddol, efallai na fyddant yn addas ar gyfer y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Credwn mai'r awdurdod cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi bod angen gwrandawriad neu ymchwiliad o dan amgylchiadau o'r fath.

17. Ar sail monitro'r trefniant anffurfiol cyfredol yng Nghymru yn ddiweddar, mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n amcangyfrif y byddai newidiadau i'r dull apelio mewn achosion adran 78 yn cael eu gwneud mewn oddeutu 5% o apeliadau (tua 45 achos bob blwyddyn os yw'r apeliadau'n parhau ar eu lefel gyfredol). Byddai'r mwyafrif llethol o newidiadau yn rhai o weithdrefn fwy costus i weithdrefn symlach a chyflymach, gan leihau'r adnoddau fyddai eu hangen i weithredu'r system apelio yng Nghymru.
18. Gan fod y partion yn cytuno ar newidiadau i'r dull apelio mwyaf priodol yn y mwyafrif o achosion o dan y trefniant anffurfiol cyfredol yng Nghymru, ni fyddai newid i system ffurfiol o bennu gweithdrefn gan yr Arolygiaeth yn cael fawr o effaith yn ymarferol. Fodd bynnag, byddai'n arwain at gysondeb, cymesuredd ac effeithlonrwydd cynyddol i'r system gyfan. Fel sy'n digwydd yn Lloegr ar hyn o bryd, rydym yn cynnig bod partion sy'n herio cynnig gan yr Arolygiaeth Gynllunio i newid y weithdrefn apelio yn cael cyfle i gyfiawnhau ymhellach eu dull apelio dewisol cyn i'r Arolygiaeth benderfynu'n derfynol pa weithdrefn i'w dilyn.
19. Mae apeliadau gorfodaeth Adran 174 hefyd yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd i geisio sicrhau bod pob un yn cael ei drafod drwy'r dull apelio priodol. Eto, ers mis Ebrill 2009 mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi gallu pennu'r weithdrefn gywir ar gyfer apeliadau o'r fath yn Lloegr. Mae'r weithdrefn gywir mewn achosion gorfodaeth yn cael ei phennu'n aml gan sail yr apêl ac a oes angen croesholi tystiolaeth mewn perthynas â ffeithiau a wnaed ar lw.
20. O'r 2822 o apeliadau gorfodaeth a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2009/10, roedd yr apelydd yn ceisio newid y dull apelio mewn 300 (11%) o achosion. Newidiwyd tua hanner y rhain o fod yn rhai sylwadau ysgrifenedig i ymchwiliad, a bron 15% o wrandawriad i ymchwiliad. Fodd bynnag, heriwyd llai na 12% o newidiadau gan yr apelydd.

21. Er mwyn gweithredu system apelio sy'n sicrhau'r weithdrefn apelio briodol ar gyfer pob achos mewn modd mor effeithlon â phosibl, credwn ei bod yn bwysig bod y pŵer yn cael ei gyflwyno yng Nghymru i'r Arolygiaeth Gynllunio allu pennu'r dull apelio ar gyfer apelïadau gorfodaeth adran 174 ar sail meini prawf dangosol sydd wedi'u cyhoeddi.
22. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn ymdrin ag apelïadau yn erbyn y canlynol:
- Caniatâd adeiladau rhestredig o dan Adran 20 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (apelïadau adran 20);
  - Hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig o dan Adran 39 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (apelïadau adran 39);
  - Tystysgrifau Defnydd Sefydledig o dan Adran 195 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (apelïadau adran 195);
  - Gorchmynion Cadw Coed o dan Adran 208 yn erbyn hysbysiad a wnaed o dan Adran 207 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (apelïadau adran 208);
  - Sylweddau Peryglus o dan Adran 21 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (apelïadau adran 21); a
  - Cheisiadau am Ganiatâd Adeiladau Rhestredig sydd wedi'u galw i mewn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt o dan Adran 12 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (ceisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig adran 12);
23. Ar hyn o bryd, dewisir y weithdrefn i bennu'r apelïadau hyn, fel gydag apelïadau cynllunio adran 78, apelïadau cynllunio adran 77 ac apelïadau gorfodaeth adran 174, gan y prif bartïon. Am y rhesymau a roddir uchod, credwn hefyd y carem efallai fabwysiadu system ffurfiol o bennu gweithdrefn ar gyfer yr apelïadau a restrir ym mharagraff 22 uchod a cheisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig adran 12.
24. Cynigiwn y dylai'r Arolygiaeth Gynllunio, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, allu cymhwyso meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi a'u cymeradwyo gan Weinidogion i bennu'r dull apelio mwyaf priodol. Dylid trafod unrhyw anghytuno ynglŷn â dull y weithdrefn i'w defnyddio mewn unrhyw achos penodol â'r Arolygiaeth Gynllunio bryd hynny gan ystyried y meini prawf. Credwn y byddai'r dull hwn yn cydymffurfio ag egwyddorion system apelïadau agored, teg a di-duedd, gan sicrhau bod pob apelydd yn derbyn yr un lefel o wasanaeth ac na fyddai unrhyw un dan anfantais yn sgil hynny. Byddai'n golygu bod pob apêl yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio'r dull apelio mwyaf priodol a chymesur ac yn cynorthwyo i gyflymu'r broses apelio. Pe bai her gyfreithiol, byddai'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio arddangos ei bod wedi gweithredu'n rhesymol drwy gymhwyso'r meini prawf. Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i ddefnyddio'r meini prawf a ddefnyddir ar hyn o bryd yn anffurfiol gan yr Arolygiaeth, ond rydym yn ceisio barn ar y meini prawf fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

25. Mae deddfwriaeth sylfaenol eisoes wedi'i deddfu yn Neddf Cynllunio 2008 a fyddai'n caniatáu i'r cynnig hwn gael ei roi ar waith yng Nghymru.

**C6 Ydych chi'n cytuno y dylai'r Arolygiaeth Gynllunio, ar ran Gweinidogion Cymru, allu pennu dull apelio ar gyfer apeliadau cynllunio a hysbysebu adran 78, gorfodi adran 174, caniatâd adeiladau rhestredig adran 20, gorfodi caniatâd adeilad rhestredig adran 39, tystysgrif defnydd sefydledig adran 195, gorchymyn cadw coed adran 208 a Sylweddau Peryglus adran 21 a cheisiadau adran 77 ac adran 12 trwy gymhwys meini prawf dangosol sydd wedi'u cyhoeddi a'u cymeradwyo gan Weinidogion? Os nad ydych chi, pam?**

**C7 Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf dangosol a ddefnyddir yn anffurfiol (a nodir ar dudalennau 8 a 9), sef y rhai y credwn ddylai fod yn sail i'r meini prawf dangosol a gymeradwyir gan Weinidogion? Os nad ydych chi, gyda pha rai o'r rhain ydych chi'n anghytuno, a pham? Pa feini prawf fyddech chi'n eu cyflwyno'n lle hynny?**

### **Ymestyn y gyfundrefn gostau i apeliadau cynllunio sy'n cael eu datrys drwy ddefnyddio'r dull ysgrifenedig**

26. Mae'r gyfundrefn dyfarnu costau yn ceisio gwneud y system apeliadau yn fwy effeithlon a disgybledig drwy ganiatáu i bartïon sydd wedi gorfod talu costau diangen neu wastraffus yn ystod y broses apelio oherwydd ymddygiad afresymol yn cael eu had-dalu. Yng Nghymru, mae canllawiau polisi ar ddefnyddio'r gyfundrefn hon wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr 23/93 "Dyfarnu Costau mewn Trafodion Cynllunio a Thrafodion Eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol)". Ar hyn o bryd yng Nghymru, mewn perthynas ag apeliadau cynllunio, mae yna ddarpariaeth ar gyfer gwneud cais am ddyfarnu costau mewn perthynas ag apeliadau sy'n cael eu trafod mewn gwrandawriad neu ymchwiliad.
27. Yn Lloegr, i gyd-fynd â'r newid o dan Ddeddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â phennu'r weithdrefn apelio fwyaf priodol a chyflwyno apeliadau llwybr carlam i ddeiliaid tai y gellir ond eu trafod drwy sylwadau ysgrifenedig, mae'r gyfundrefn gostau wedi'i hymestyn i apeliadau cynllunio a drafodir o dan y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn cael yr un chwarae teg o ran costau. Mae'r profiad hyd yma yn Lloegr yn dangos bod cheisiadau am ddyfarniadau costau mewn sylwadau ysgrifenedig yn cael eu datrys yn gyfrifol ar y cyfan.
28. Credwn ei bod yn iawn, er mwyn hybu tegwch a chyfiawnder, y dylai unrhyw benderfyniad i alluogi'r Arolygiaeth Gynllunio, sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, i bennu'r dull o glywed apêl cynllunio, gynnwys ymestyn y gyfundrefn gostau i gynnwys y dull sylwadau ysgrifenedig. Byddai angen Cylchlythyr Llywodraeth Cymru newydd ar

y gyfundrefn gostau estynedig yng Nghymru pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn, a byddai'n destun ymgynghori ar wahân.

29. Rhagwelwn ar hyn o bryd y byddai'r egwyddorion cyffredinol cyfredol sy'n sail i'r gyfundrefn gostau yn parhau'n berthnasol. Mae'r partion yn talu eu costau eu hunain fel arfer mewn apeliadau cynllunio. Nid yw dyfarnu costau'n dilyn canlyniad apêl, ac mae'n cael ei bennu ar wahân. Fel arfer, dyfernir costau:
- os bydd parti wedi gwneud cais prydlon am ddyfarniad o'r fath
  - os bydd parti y ceisir y dyfarniad yn ei erbyn wedi ymddwyn yn afresymol ac
  - os mai ymddygiad afresymol sydd wedi peri bod y parti sy'n gwneud cais am gostau wedi talu costau diangen neu wastraffus yn y broses apelio – naill ai mewn perthynas lwyr neu ag elfen benodol o'r broses.
30. Byddai'r Cylchlythyr newydd y cyfeirir ato uchod yn darparu'r canllawiau angenrheidiol ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau y gellir dyfarnu costau mewn achosion a bennir drwy sylwadau ysgrifenedig.

**C8 Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y gyfundrefn gostau i apeliadau cynllunio sy'n cael eu trafod drwy ddefnyddio'r dull ysgrifenedig? Os nad ydych chi, pam?**

**C9 Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision i'r system apelio a'r defnyddwyr yn sgil newid o'r fath?**

### **Cywiro camgymeriadau mewn penderfyniadau cynllunio**

31. O dan Ran 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae gan Weinidogion Cymru (neu'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan) y pŵer i roi hysbysiad ffurfiol yn cywiro camgymeriad mewn penderfyniad apêl nad yw'n rhan o'r ymresymiad sy'n sail i'r penderfyniad. Mae'r camgymeriadau y gellir eu cywiro o dan y pŵer hwn yn cynnwys y rhai na fyddai'n newid sylwedd y penderfyniad ac felly nid oes unrhyw barti dan anfantais. Mae enghreifftiau o gamgymeriadau o'r fath yn cynnwys rhifau tai neu enwau strydoedd anghywir, rhifau apelio a cheisiadau anghywir, a chamgymeriadau amlwg mewn mesuriadau a phwyntiau cwrmpawd.
32. Er mwyn ymarfer y cyfryw bwerau ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r Gweinidog neu'r Arolygiaeth Gynllunio yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig diamod yr apelydd a'r tiffeddiannwr(wyr) perthnasol. Gall fod yn anodd derbyn caniatâd, er enghraifft lle credir bod y camgymeriad o fantais i'r apelydd. Gall unrhyw newid i berchnogaeth tir sy'n digwydd ar ôl cyflwyno apêl hefyd ei gwneud yn anodd canfod a chysylltu â'r perchnogion presennol. Mae methu derbyn y caniatâd angenrheidiol yn golygu mai'r unig ffordd o gywiro'r camgymeriad yw drwy her yn yr uchel lys yn arwain at ddileu'r penderfyniad. Mae methu

cywiro'r penderfyniad yn golygu ei fod yn agored i gael ei herio os oes un o'r partion yn teimlo y gallai fod cyfle iddo ennill yr achos.

33. Rhoddodd y Ddeddf Cynllunio a gyflwynwyd yn Lloegr yn 2008 y gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol (neu'r Arolygiaeth Gynllunio ar ei ran) wneud newidiadau i gywiro camgymeriadau heb dderbyn caniatâd. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau yng Nghymru i wneud yr un fath os yw'n dymuno.
34. Credwn fod cywiro camgymeriadau mewn penderfyniadau apelio er budd y cyhoedd a, chyn belled â bod cais i wneud hynny'n cael ei dderbyn o fewn cyfnod herio perthnasol yr Uchel Lys, dylai'r Gweinidogion (neu'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan) fod â'r disgrisiwn i wneud hyn. Felly, cynigiwn fod newidiadau'n cael eu gwneud i'r is-ddeddfwriaeth i alluogi Gweinidogion (neu'r Arolygiaeth Gynllunio ar eu rhan) i roi Hysbysiad Cywiro heb ganiatâd yr apelydd a thirfeddianwyr. Ni fyddai cwmpas cywiriadau o'r fath, fel y nodir uchod, yn newid. Byddai hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses cywiro camgymeriadau yn ddirfawr.

**C10 Ydych chi'n cytuno â'r newid i'r broses cywiro camgymeriadau a nodir uchod? Os nad ydych chi, pam?**

#### **Trosglwyddo awdurdod i arolygwyr bennu hen ganiatadau mwynau**

35. Mae Adran 198 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn diwygio Atodlen 6 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y gellir gwneud rheoliadau ar gyfer trosglwyddo arolygwyr apeliadau dan Atodlen 2 Deddf Cynllunio ac lawndal 1991 mewn perthynas â hen ganiatadau mwynau ar gyfer datblygiadau a awdurdodwyd o dan orchmynion datblygu dros dro a wnaed rhwng 1943 ac 1948. O dan ddeddfwriaeth gyfredol, pennir apeliadau ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru ar sail argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio. Gall y broses hon ychwanegu hyd at 12 wythnos at y broses apelio. Rydym yn cynnig dod â darpariaethau Deddf 2008 i rym yng Nghymru, fel y gall arolygwyr wneud penderfyniadau ar yr apeliadau hyn, yn unol â chyfundrefnau cydsyniad tebyg eraill. Bydd hyn yn symleiddio a chyflymu'r broses ar gyfer gweinyddu apeliadau o'r fath.

**C11 Beth yw eich barn ar fanteision y newid hwn?**

#### **Darparu'r ffi ddwbl ar geisiadau tybiedig mewn achosion gorfodaeth yn ei chyfanrwydd i awdurdodau cynllunio lleol**

36. O dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, lle mae apêl yn cael ei chyflwyno yn erbyn hysbysiad gorfodi, tybir bod yr apelydd wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu testun yr hysbysiad gorfodi. Fel gyda chais am ganiatâd cynllunio, mae ffi yn daladwy mewn perthynas â'r cais tybiedig. Fodd bynnag, mae rheoliadau'n caniatáu i'r ffi am y cais tybiedig fod ddwywaith cymaint â'r ffi am gais confensiynol, gyda hanner y ffi yn mynd i'r awdurdod

cynllunio lleol a hanner i'r Arolygiaeth Gynllunio (er nad yw'r Arolygiaeth yn cadw'r ffi, ond yn ei hanfon i'r Trysorlys). Nid yw'r ffi am yr apêl, ond yn hytrach mae'n gyfraniad at gostau'r Arolygiaeth Gynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i drafod y cais cynllunio tybiedig.

37. Yn ystod taith Deddf Cynllunio 2008 drwy'r Senedd, cynigiwyd y dylid rhoi'r holl ffi ddwbl i'r awdurdod cynllunio lleol. Er mwyn ategu hyn, dywedwyd y byddai hyn yn cynyddu faint o gyllid a fyddai ar gael i awdurdodau cynllunio lleol weinyddu'r system gorfodi cynllunio; ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i apelyddion gan mai'r unig wahaniaeth oedd dyraniad y ffi; byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn elwa drwy beidio â gorfod talu'r costau gweinyddol o gasglu ffioedd a'u talu i'r Trysorlys; ac ni fyddai'r pwrs cyhoeddus ar ei golled gan y byddai'r arian a dalwyd i'r Trysorlys yn hytrach yn cael ei dalu i awdurdodau cynllunio lleol.
38. Derbyniwyd y cynnig hwn ac mae adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn darparu'r pŵer lle y gellir talu'r holl ffi ddwbl i'r awdurdod cynllunio lleol. Rydym yn bwriadu rhoi'r darpariaethau hyn ar waith yng Nghymru.

## **C12 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newid hwn?**

### **Cyflwyno prosesau a chanllawiau ffurfiol ar gyfer ymchwiliadau pwrpasol**

39. Mae'r broses ymchwiliadau yng Nghymru yn cael ei rheoli gan Reolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, sy'n pennu pwyntiau penodol yn y broses ymchwiliadau lle mae'n rhaid gweithredu a/neu gyflwyno dogfennau.
40. Fodd bynnag, nid dull safonol o reidwydd yw'r ffordd fwyaf effeithlon neu effeithlon o ymdrin ag apeliadau sydd angen ymchwiliadau hirach a chymhlethach.
41. Ers mis Ebrill 2009, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru a Lloegr wedi defnyddio proses bwrpasol ar gyfer ymchwiliadau cynllunio sy'n para 8 diwrnod neu fwy a phob cais a bennir gan Weinidogion Cymru (ceisiadau a alwyd i mewn adran 77 ac apeliadau wedi'u hadfer adran 78). Mae'r dull pwrpasol yn darparu proses mwy hyblyg ac ymatebol ar gyfer yr apeliadau mwyaf cymhleth ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mor effeithlon â phosibl ac yn ddisgybledig gan bob parti, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau'r holl bartïon. O 1 Ebrill 2011, ymestynnwyd y broses bwrpasol i gynnwys pob ymchwiliad cynllunio 6 diwrnod neu fwy.
42. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio am i amserlenni pwrpasol gael eu dilyn yn gyffredinol ar gyfer:
  - Pob achos (gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu hadfer i'w pennu gan Weinidogion Cymru) lle, cyn cyflwyno'r apêl, mae'r partiön a'r

Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno ar y cyd bod yr ymchwiliad yn debygol o bara 6 diwrnod neu fwy;

- Lle nad oes unrhyw gyfathrebu wedi bod cyn cyflwyno apêl a bod yr Arolygiaeth Gynllunio, mewn ymgynghoriad â'r partïon, yn ystyried y bydd angen ymchwiliad o 6 diwrnod neu fwy; a
- Phob achos sy'n cael eu galw i mewn i'w pennu gan Weinidogion Cymru.

43. Hefyd, lle disgwylir i ymchwiliad bara llai na 6 diwrnod, ond bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn pennu wedi hynny bod angen Cyfarfod Cyn Ymchwiliad a/neu Ddatganiad Amgylcheddol, gyda chaniatâd yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol, cynigiwn y gellir trosglwyddo'r achos i amserlen bwrpasol. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol eraill hefyd lle bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn pennu bod angen gweithredu amserlen bwrpasol mewn ymgynghoriad â'r prif bartïon.

44. Mae amserlenni pwrpasol yng Nghymru'n cael eu pennu ar hyn o bryd drwy gytundeb rhwng yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a'r Arolygiaeth Gynllunio gyda chyfranogiad partïon eraill sydd â hawl statudol i ymddangos. Fodd bynnag, nid oes canllawiau ffurfiol yng Nghymru i gynghori'r rhai hynny sy'n cyfrannu at y broses ar sut dylid pennu a dilyn amserlen bwrpasol. Gan hynny, datblygwyd arferion pwrpasol rywfaint yn wahanol ar gyfer achosion adran 77 a 78 ac achosion lle mae angen Datganiad Amgylcheddol.

45. Yn Lloegr, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cyhoeddi nodyn cyngor arfer da (rhif 5) yn ddiweddar sy'n rhoi cyngor ffurfiol ar sut dylid gweithredu amserlenni pwrpasol ar gyfer achosion adran 77 a 78. Mae'r Nodyn Cyngor yn nodi proses ffurfiol ar gyfer pennu amserlenni pwrpasol, ac mae prif nodweddion y broses yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a'r Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno ar yr amserlen gyda chyfranogiad partïon eraill sydd â rôl statudol (gan gynnwys partïon "Rheol 6", h.y. person sydd â hawl i siarad mewn ymchwiliad a chroesholi tystion), os ydynt yn hysbys ar y pryd.
- Mae'r partïon yn cyflwyno amserlen bwrpasol ddrafft i'r Arolygiaeth Gynllunio wrth gyflwyno'r apêl.
- Mae'r partïon yn trafod yr amserlen ddrafft gyda'r Arolygiaeth Gynllunio cyn ei chyflwyno.
- Mae'r prif bartïon yn ceisio cynnwys partïon eraill sy'n debygol o gyfrannu'n sylweddol at y broses ymchwiliad mewn unrhyw drafodaethau cyn apelio ar raglennu.
- Os yw parti'n sicrhau statws Rheol 6 ar ôl dechrau'r broses apelio, mae'r prif bartïon yn ymgynghori â'r parti hwnnw ar yr amserlen arfaethedig, ac eithrio eu bod wedi cytuno arni eisoes.
- Ni fydd amserlen y cytunwyd arni, fel arfer, yn cael ei hamrywio os bydd unrhyw Barti yn sicrhau statws Rheol 6 wedi hynny.
- Wrth bennu amserlen bwrpasol, mae'n rhaid darparu pob dogfen sy'n ofynnol yn ôl Rheolau'r Weithdrefn Ymchwiliadau ac yn yr un drefn.

- Ar ôl cytuno ar yr amserlen mae'n rhaid cadw ati oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
- Os yw parti, o dan amgylchiadau eithriadol, am amrywio elfen o'r amserlen, dylai geisio cytuno ar hynny i ddechrau gyda'r prif barti neu bartïon (gan gynnwys partïon Rheol 6) cyn cynnig yr amrywiad i'r Arolygiaeth Gynllunio.
- Wrth ystyried cais i amrywio amserlen y cytunwyd arni, mae angen i'r Arolygiaeth Gynllunio fod yn fodlon (i) na fyddai buddion unrhyw bartïon eraill yn cael eu niweidio'n afresymol gan yr amrywiad a geisir, ac (ii) na fyddai'n arwain at yr angen i ad-drefnu'r ymchwiliad, gan eu bod eisoes wedi cytuno ar y dyddiad.
- Os bydd unrhyw barti'n methu cydymffurfio ag unrhyw ran o'r amserlen y cytunwyd arni, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn adolygu a ddylid amrywio'r amserlen ai peidio.
- Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cadw'r hawl i ddiwygio'r amserlen os bydd amgylchiadau'n newid yn sylweddol yn ystod y broses. Ble bynnag y bo modd, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ceisio cytuno ar unrhyw ddiwygiad gyda'r partïon.
- Os nad yw'r holl bartïon yn gallu cytuno ar amrywiad, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gorfodi amserlen y tybia sy'n rhesymol gan ystyried safbwyntiau pob parti.
- Gellir ystyried bod methu cydymffurfio ag unrhyw gam o'r amserlen bwrpasol yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos. Os yw hyn wedi achosi gwariant diangen neu wastraffus i barti arall, gall arwain at hawliad am gostau yn erbyn y parti dan sylw.
- Mewn achosion lle nad yw wedi bod yn bosibl i bartïon gyfathrebu cyn cyflwyno apêl, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori'r partïon drwy lythyr a fydd yr achos yn cael ei gynnal fel ymchwiliad ac ar sail bwrpasol. Wrth bennu hyn, bydd yn rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried cyngor yr apelyddion ar nifer y tystion y disgwylir eu galw, ymysg pethau eraill.
- Os bydd y partïon yn methu cytuno ar amserlen, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gorfodi rhaglen a fydd yn ystyried, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, safbwyntiau'r partïon ac amgylchiadau penodol yr achos.

46. Credwn fod amserlenni pwrpasol yn darparu dull mwy cymesur o ymdrin ag ymchwiliadau mwy na'r amserlen safonol yn y rheolau ac y bydd proses fwy ffurfiol yn galluogi i bartïon ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud o'r cychwyn a dylai hyn ar y cyfan helpu i leihau achosion o oedi a gor-redeg.
47. Felly, rydym yn cynnig adolygu'r broses bwrpasol yng Nghymru a pharatoi canllawiau ffurfiol tebyg i'r broses sydd ar waith yn Lloegr, ar weithredu'r amserlenni pwrpasol.

**C13 Ydych chi'n cytuno â barn yr Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â phryd y bydd angen amserlen bwrpasol? Os nad ydych chi, pam?**



**C14 Ydych chi'n cytuno, mewn egwyddor, y dylid cyhoeddi canllawiau ffurfiol ar weithredu amserlenni pwrpasol? Os nad ydych chi, pam?**

**C15 Beth yw eich barn ar y broses amserlen bwrpasol yng Nghymru yn dilyn yr un trywydd yn fras â'r broses gyfredol yn Lloegr? A oes unrhyw agweddau ar y broses a allai fod yn anfoddhaol – ac os hynny, pam?**

**C16 A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar y broses amserlen bwrpasol ffurfiol?**

**Mynnu bod datganiadau tir cyffredin yn cael eu cyflwyno'n gynt yn yr ymchwiliad**

48. Mae Rheol 14 o Reolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol a'r ymgeisydd/apelydd baratoi datganiad tir cyffredin a'i gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, ar ran Gweinidogion Cymru, o leiaf 4 wythnos cyn y dyddiad a bennwyd i'r ymchwiliad. Mae'r terfyn amser pedair wythnos hwn yr un fath ar gyfer cyflwyno proflenni tystiolaeth ysgrifenedig.
49. Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi sylwi bod llawer o bartïon yn methu cyflwyno datganiad tir cyffredin. Ymddengys bod hyn yn wir oherwydd bod ei angen ar yr un adeg â'r proflenni tystiolaeth ac, felly, ni all y gwaith a wneir i gytuno ar ddatganiad tir cyffredin gyfrannu at y proflenni tystiolaeth.
50. Cynigiwn ei bod yn ofynnol cyflwyno'r datganiad tir cyffredin chwe wythnos ar ôl dechrau'r apêl. Drwy fynnu bod y datganiad tir cyffredin yn cael ei gyflwyno'n gynt yn y broses apelio, credwn y bydd yn helpu i'r partïon dan sylw ganolbwyntio ar y materion sydd angen eu trafod yn yr ymchwiliad, a dylai hyn arbed amser ac arian i bawb a lleihau hyd yr ymchwiliad o bosibl. Mae'r cynnig hwn eisoes wedi'i weithredu'n llwyddiannus yn Lloegr.

**C17 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newid hwn?**

## Gwella Proses Apeliadau Cynllunio

### Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Cyfeiriad:

### Apeliadau deiliaid tai llwybr carlam

**C1 Ydych chi'n cytuno mewn egwyddor â chyflwyno gwasanaeth apelio llwybr carlam i ddeiliaid tai yng Nghymru? Os nad ydych chi, pam?**


**C2 Beth ydych chi'n credu yw'r manteision a'r anfanteision, o ran(i) apelyddion, (ii) awdurdodau cynllunio lleol a (iii) y gymuned ehangach, o gyflwyno gwasanaeth apelio llwybr carlam i ddeiliaid tai?**

**C3 Beth yw eich barn ar elfennau canlynol y gwasanaeth apelio i ddeiliaid tai sy'n gweithredu systemau tebyg i'r systemau cyfredol yn Lloegr? A oes unrhyw agweddau ar y system a allai fod yn anfoddhaol – ac os hynny, pam?**

- Mae gan ymgeiswyr 12 wythnos o ddyddiad y penderfyniad i gyflwyno apêl

- **Targed o 8 wythnos ar gyfer penderfynu ar yr apêl**
- **Cynnal y drefn apelio yn electronig pryd bynnag y bo hynny'n bosibl**
- **Achos yr awdurdod cynllunio lleol i gynnwys dogfennaeth sy'n ymwneud â thrafod a phenderfynu'r cais a'i chyflwyno gyda holiadur apelio**
- **Achos yr apelydd i gynnwys datganiad ar y ffurflen apelio a gyflwynwyd yn egluro pam mae penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei herio**
- **Sylwadau preswylwyr cyfagos yn y cyfnod ymgeisio i gael eu cario drosodd i'r apêl – hysbysiad yn y cyfnod apêl ond i gadarnhau a oes gwrthwynebiadau o hyd**
- **Yr arolygydd i ymweld â'r safle ar ei ben ei hun ym mhob achos ac eithrio bod angen mynediad i'r safle**
- **Os oes angen darparu mynediad, gyda'r apelydd/cynrychiolydd ond yno i sicrhau mynediad, mae'n rhaid rhoi rhybudd o'r ffenestr amser (rydym yn annog ffenestr o 2 awr, e.e. rhwng 10.00am a hanner dydd) pan fydd yr arolygydd yn galw**
- **Yr arolygydd i benderfynu a yw am weld y safle o eiddo cyfagos mewn ymateb i unrhyw gais i wneud hynny**

**C4 Ydych chi'n cytuno gyda chwmpas y diffiniad o ddatblygiadau deiliaid tai a nodir yn nhroednodyn 1 uchod? A oes mathau o ddatblygiadau deiliaid tai y dylid eu heithrio yn eich barn chi, neu a ddylid cynnwys mathau eraill? Os hynny, pa fathau a pham?**



**C5 A oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas ag unrhyw agwedd arall ar wasanaeth llwybr carlam i ddeiliaid tai?**

**Pennu'r dull apelio**

**C6 Ydych chi'n cytuno y dylai'r Arolygiaeth Gynllunio, ar ran Gweinidogion Cymru, allu pennu dull apelio ar gyfer apeliadau cynllunio a hysbysebu adran 78, gorfodi adran 174, caniatâd adeiladau rhestredig adran 20, gorfodi caniatâd adeilad rhestredig adran 39, tystysgrif defnydd sefydledig adran 195, gorchymyn cadw coed adran 208 a**

**Sylweddau Peryglus adran 21 a cheisiadau adran 77 ac adran 12 trwy gymhwys meini prawf dangosol sydd wedi'u cyhoeddi a'u cymeradwyo gan Weinidogion? Os nad ydych chi, pam?**

**C7 Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf dangosol a ddefnyddir yn anffurfiol (a nodir isod), sef y rhai y credwn ddylai fod yn sail i'r meini prawf dangosol a gymeradwyir gan Weinidogion? Os nad ydych chi, gyda pha rai o'r rhain ydych chi'n anghytuno, a pham? Pa feini prawf fyddech chi'n eu cyflwyno'n lle hynny?**

**Ymestyn y gyfundrefn gostau i apeliadau cynllunio sy'n cael eu datrys drwy ddefnyddio'r dull ysgrifenedig**

**C8 Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y gyfundrefn gostau i apeliadau**

**cynllunio sy'n cael eu trafod drwy ddefnyddio'r dull ysgrifenedig? Os nad ydych chi, pam?**

**C9 Beth fyddai'r manteision a'r anfanteision i'r system apelio a'r defnyddwyr yn sgil newid o'r fath?**

**Cywiro camgymeriadau mewn penderfyniadau cynllunio**

**C10 Ydych chi'n cytuno â'r newid i'r broses cywiro camgymeriadau a nodir uchod? Os nad ydych chi, pam?**

**Trosglwyddo awdurdod i arolygwyr bennu hen ganiatadau mwynau**

**C11 Beth yw eich barn ar fanteision y newid hwn?**

**Darparu'r ffi ddwbl ar geisiadau tybiedig mewn achosion gorfodaeth yn ei chyfanrwydd i awdurdodau cynllunio lleol**

**C12 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newid hwn?**

**Cyflwyno prosesau a chanllawiau ffurfiol ar gyfer ymchwiliadau pwrpasol**

**C13 Ydych chi'n cytuno â barn yr Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â phryd y bydd angen amserlen bwrpasol? Os nad ydych chi, pam?**

**C14 Ydych chi'n cytuno, mewn egwyddor, y dylid cyhoeddi canllawiau ffurfiol ar weithredu amserlenni pwrpasol? Os nad ydych chi, pam?**



**C15 Beth yw eich barn ar y broses amserlen bwrpasol yng Nghymru yn dilyn yr un trywydd yn fras â'r broses gyfredol yn Lloegr? A oes unrhyw agweddau ar y broses a allai fod yn anfoddhaol – ac os hynny, pam?**

**C16 A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar y broses amserlen bwrpasol ffurfiol?**

**Ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno datganiadau tir cyffredin yn gynharach yn y proses ymchwiliadau**

**C17 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newid hwn?**

**Cwestiwn 18:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w cofnodi.

Gellir cyhoeddi'r ymatebion i ymgynghoriadau – ar y rhyngwrwyd neu  
mewn adroddiad. Ticiwch y bocs os ydych am i'ch ymateb gael ei  
gadw'n gyfrinachol:

---